ARDAL GROESLON, CARMEL A BRONYFOEL (FRON) NEWYDDLEN TREFNIADAETH YSGOLION

Addysg

CYNGOR GWYNEDD

IONAWR 2014

PENDERFYNIAD GWEINIDOG ADDYSG, LLYWODRAETH CYMRU

Yn dilyn derbyn gwrthwynebiad i'r rhybudd statudol i gau ysgolion Groeslon, Carmel a Bronyfoel (yn y Fron) ac i sefydlu Ysgol Ardal newydd yn Y Groeslon, anfonwyd y mater yn ei gyfanrwydd at Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol.

Ar ôl ystyriaeth fanwl mae Huw Lewis, Gweinidog dros Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cymeradwyo'r cais.

Mae'r Gweinidog wedi datgan fel a ganlyn:

> *"Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, ac ar ôl ystyried pob mater a dynnwyd i'w sylw, mae'r Gweinidog yn fodlon y bydd y cynnig yn cynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, ac efallai yn ei gwella; y bydd yn darparu addysg gynradd fwy cost-effeithiol; y bydd yn lleihau nifer y lleoedd gwag; ac y bydd yn helpu i gyflawni strategaeth Cyngor Sir Gwynedd: 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd".*

Mae hyn felly yn cadarnhau y penderfyniad o ran y cynnig addysgol. Mae'r achos fusnes i gadarnhau'r ffynhonnell ariannu ar gyfer y cynllun hefyd wedi ei gymeradwyo. Bydd y cynnig yma yn weithredol o 1 Medi 2015.

CAMAU NESAF

Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog bydd trefniadau yn cael ei rhoi mewn lle i gychwyn ar y broses o sefydlu'r Ysgol Ardal newydd. Dyma rhai o'r camau gweithredu yn ystod y misoedd nesaf:

- Sicrhau cefnogaeth i ddisgyblion a staff yr ysgolion
- Sefydlu Corff Llywodraethu Cysgodol
- Penodi Pennaeth a tîm o staff
- Penodi datblygwr i ddatblygu'r safle
- Cychwyn gwaith ar y safle

Bydd angen rhoi trefniadau mewn lle i benodi Corff Llywodraethol 'Cysgodol' ar gyfer y cyfnod trosiannol. Wedi i'r corff cysgodol gael ei gadarnhau bydd modd symud ymlaen i benodi Pennaeth. Bydd y Pennaeth ac aelodau'r corff cysgodol yn gyfrifol am lunio strwythur staffio a phenodi staff ar gyfer yr ysgol newydd.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad yw newid o'r math yma yn hawdd i neb sydd yn ymwneud gyda'r ysgolion. Bydd lles a chefnogaeth i ddisgyblion angen bod yn flaenoriaeth yn ystod y cyfnod o newid, a bydd mesurau penodol i gyfarch hynny. Yn ogystal, bwriedir cynnal cyfarfod gyda staff yr ysgolion i sicrhau eu bod yn glir ynglŷn a'r sefyllfa o ran eu swyddi.

Mae datblygiad fel hyn yn codi nifer o gwestiynau, ceisiwn ateb rhai ohonynt fel rhan o'r newyddlen yma. Byddwn yn cyfathrebu'n gyson yn ystod y misoedd nesaf er mwyn rhoi diweddariad i bawb.

Dywedodd Cyng. Sian Gwenllian, Aelod Cabinet Addysg y Cyngor:

"Mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo'r cynnig yma fydd yn ein galluogi ni fel Cyngor i adeiladu ysgol newydd ar gyfer yr ardal ac i ddarparu addysg mewn amgylchfyd addas i'r 21^{ain} Ganrif. Mae wedi bod yn daith hir ac anodd, ond dwi'n ffyddiog bydd pawb yn ymfalchïo yn yr adnodd addysgol newydd yma i'r dyfodol. Rwy'n awyddus iawn i weld y gwaith adeiladu'n cychwyn i sicrhau ysgol newydd i blant yr ardal erbyn Medi 2015"

Mae mwy o wybodaeth am drefniadaeth ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor:
www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion neu drwy e-bost trefniadaeth.ysgolion@gwynedd.gov.uk

CWESTIYNAU AC ATEBION

CAMAU NESAF

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd angen sefydlu Corff Llywodraethu Cysgodol er mwyn symud y cynllun o sefydlu'r Ysgol Ardal yn ei flaen. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda llywodraethwyr presennol yr ysgolion i fwrw mlaen gyda hyn

Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda staff yr ysgolion er mwyn trafod oblygiadau'r cynnig hwn a bydd cyfle i drafod materion staffio mewn manylder.

Yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio, bydd y gwaith adeiladu yr Ysgol Ardal yn cychwyn yn y Gwanwyn.

HWYLUSO Y CYFNOD O NEWID – CEFNOGI'R DISGYBLION

Pa fesurau fydd mewn lle er mwyn cefnogi'r disgyblion yn ystod y cyfnod hwn?

Fel rhan o'r broses o hwyluso'r newid ar gyfer disgyblion, argymhellir fod gweithgareddau yn cael eu cynnal i roi cyfle i ddisgyblion ddod at eu gilydd cyn i'r ysgol newydd fod yn barod. Bydd hyn yn cynorthwyo'r broses o drosglwyddo ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddod i adnabod eu gilydd cyn symud i'r ysgol newydd. Bydd cydweithio i sicrhau lles disgyblion yr ardal yn holl bwysig yn ystod y cyfnod trosiannol hwn.

Bydd angen penderfynu ar enw'r Ysgol Ardal yn fuan. O brofiad sefyllfaoedd blaenorol, o bosib bydd y Corff Llywodraethol Cysgodol yn gofyn am gymorth disgyblion yr ysgolion presennol i wneud hyn.

STAFFIO

Beth fydd yn digwydd i staff yr ysgolion presennol?

Gan fod Ysgol Groeslon, Carmel a Bronyfoel yn cau, mae hyn yn golygu y bydd y swyddi yn cael eu diddymu. Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau fod staff yr ysgolion yn derbyn cyfleoedd am swyddi yn yr Ysgol Ardal yn unol a Pholisi Cyflogaeth Amgen y Sir, ond bydd sefyllfaoedd unigolion yn amrywio. Bydd cefnogaeth Staff Personél y Cyngor ar gael i staff yr ysgolion i gynghori a chefnogi yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Beth fydd y broses o benodi staff i'r Ysgol Ardal?

Bydd y Corff Llywodraethol Cysgodol yn penodi Pennaeth i'r ysgol. Bydd y Pennaeth a'r corff llywodraethu cysgodol yn penderfynu ar strwythur staffio'r ysgol newydd ac yn penodi'r staff angenrheidiol.

CLUDIANT

Pa ddisgyblion fydd yn cael cludiant am ddim?

Bydd cludiant am ddim i'r ysgol ardal yn cael ei weithredu yn unol a'r polisi cludiant ysgolion cyfredol. Golyga hyn byddai cludiant am ddim *"ar gyfer disgyblion sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf".* Yn ychwanegol, *"pan fo disgyblion yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o ysgol y dalgylch ac, nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn, darperir cludiant di-dâl".*

Yn ôl asesiad cychwynnol o'r rhwydwaith ffyrdd a llwybrau teithio i'r ysgol yn yr ardal yma bydd cludiant di-dâl yn cael ei gynnig i rhai disgyblion oddi fewn 2 filltir i'r ysgol a fyddai angen teithio ar hyd y ffordd o Fron a Carmel, i Groeslon. Bydd hyn yn seiliedig ar asesu ceisiadau unigol disgyblion.

Sut a phryd fydd y trefniadau cludiant yn cael eu gwneud?

Bydd angen i'r Cyngor drefnu fod cwmnïau yn tendro am y gwaith o gludo disgyblion. Hyd nes fydd cwmni wedi ei benodi ni fydd union fanylion taith y bws neu wybodaeth am fannau codi a gollwng disgyblion ar gael. Mae'r Cyngor am sicrhau fod gwregysau diogelwch ar y bysus, ac hefyd am sicrhau fod hebryngwr ar y bysiau hyn am y tymor cyntaf fel rhan o'r trefniadau newydd.

MATERION ADEILADU

Pryd fydd y gwaith adeiladu yn cychwyn?

Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn yng ngwanwyn 2014.

Sut fydd y Cyngor yn sicrhau diogelwch staff a disgyblion yn ystod y gwaith adeiladu ar safle'r Groeslon?

Bydd mesurau diogelwch yn cael ei rhoi mewn lle i sicrhau diogelwch pob aelod o staff a'r holl ddisgyblion yn ystod y gwaith adeiladu. Mae diogelwch safle yn holl bwysig a bydd canllawiau penodol i'w dilyn er mwyn sicrhau diogelwch pawb, gan gynnwys y gweithlu. Bydd ystyriaeth benodol yn cael ei roi at fynediad i'r safle a hefyd mynediad i adeilad yr ysgol bresennol yn ystod y cyfnod adeiladu.

A fydd disgyblion Ysgol Groeslon yn cael eu dysgu mewn dosbarthiadau dros dro yn ystod y cyfnod yma?

Er mwyn sicrhau diogelwch pawb, ac er mwyn sicrhau fod amserlen y gwaith adeiladu yn mynd yn ei blaen, bydd yn rhaid darparu dosbarthiadau yn safle Groeslon mewn cabanau dros dro. Mae'r Cyngor wedi defnyddio cabanau tebyg ar brosiectau blaenorol. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod yr amgylchiadau yn briodol ac na fyddent yn amharu ar addysg y disgyblion.

GROESLON, CARMEL AND BRONYFOEL (FRON) AREA SCHOOL ORGANISATION NEWLETTER

Addysg

GWYNEDD COUNCIL

JANUARY 2014

DECISION OF THE WELSH GOVERNMENT'S MINISTER FOR EDUCATION

Following receipt of objections to the statutory notice to close Groeslon, Carmel and Bronyfoel (Fron) schools and to establish a new Area School in Y Groeslon, the matter was referred in its entirety to the Welsh Government's Education and Skills Minister for a final decision.

After detailed consideration Huw Lewis, the Welsh Government Minister for Education and Skills has approved the proposal.

The Minister confirmed his decision as follows:

> *"In reaching this decision, and taking into account all matters brought to his attention, the Minister is satisfied that the proposal will maintain and potentially improve the standard of education provision in the overall area, will deliver primary education more cost effectively, will reduce surplus capacity and will contribute towards Gwynedd County Council's strategy: 'Excellent Primary Education for Children in Gwynedd".*

This therefore confirms the decision regarding the educational proposal. The business case for the developments' capital funds has also been approved. This proposal will be implemented from 1 September 2015.

NEXT STEPS

Following the Minister's decision, arrangements will now be put in place to commence the process of establishing the New Area school. Here are some of the steps that will take place during the coming months:

- Ensure support for the school's pupils and staff
- Establish a Shadow Governing Body
- Appoint a Head teacher and a team of staff
- Appoint a contractor to develop the site
- Commence work on the site

Arrangements will need be put in place to establish a 'Shadow' Governing Body for the transitional period. Once the membership of the shadow body is confirmed it will be possible to move forward to appoint a Head teacher. The Head teacher and members of the shadow body will be responsible for forming the staff structure and appoint the team of staff for the new school.

The Council is aware that change of this nature is not easy for anyone involved with the schools. Wellbeing and support for pupils will need to take priority during the period of change, and specific measures will be put in place to address this. In addition, a meeting with the school's staff is intended to be held in order to ensure that they are clear about the situation regarding their jobs.

A development such as this raises many questions, we attempt to answer some of them as a part of this newsletter. We will be communicating regularly during the coming months in order to update everyone.

Cllr. Sian Gwenllian, the Council's Cabinet Member for Education stated as follows:

> *" The Minister has approved this proposal which will enable us as a Council to build a new school for the area and to provide education in an environment appropriate for the 21st Century. It has been a lengthy and difficult journey, however I am hopeful that everyone will take pride in this educational resource for the future. I am eager to see the building work commence to ensure a new school for the children of the area by September 2015."*

More school organisation information is available on the Council's website at www.gwynedd.gov.uk/schoolorganisation or e-mail school.organisation@gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

QUESTIONS AND ANSWERS

NEXT STEPS

What will happen next?

A Shadow Governing Body will need to be established in order to move the plans to establish the Area School forward. A meeting will be arranged with the governors of all three schools to proceed with this.

Meetings will be held with the school's staff in order to discuss the implications of this proposal and there will be an opportunity to discuss staffing matters in detail.

Subject to planning permission, the Area School building work will commence in the Spring.

FACILITATING THE PERIOD OF CHANGE – SUPPORTING PUPILS

What arrangements will be in place to support the children during this period of change?

As a part of the process of facilitating the change for pupils, it is recommended that activities are held to provide opportunities for pupils to come together prior to the new school being ready. This will assist the process of transferring to a new school and will provide an opportunity for the pupils to get to know each other before moving. Collaboration to ensure the wellbeing of the area's pupils will be critical during this transitional period.

A decision will need to be made on the name of Area School soon. From previous experience of similar situations, the Governing Body may ask for the assistance from pupils of the current school to do this.

STAFFING

What will happen to the staff of the current schools?

As Ysgol Groeslon, Carmel and Bronyfoel will close, this means that all posts will cease to exist. The Council is eager to ensure that the staff from the schools receive opportunities for posts in the new Area School in accordance with the Council's Alternative Employment Policy, however individual circumstances will vary. Support from the Council Personnel Staff will be available for all three school's staff to advise and support during this period of uncertainty.

What will be the process for appointing staff for the Area School?

The Shadow Governing Body will appoint a Head teacher for the school. The Head teacher and the shadow governing body will decide on the new school's staffing structure and will appoint the necessary staff.

TRANSPORT

Which pupils will receive free transport?

Free transport to the area school will be implemented in accordance with the current school transport policy. This means that there will be free transport *"for pupils that live 2 miles or further from the school in their catchment, or the closest school".* In addition, *"when pupils live less than 2 miles from the school in their catchment and, they therefore have the right to receive free transport, however they travel on a road that the Council considers extremely dangerous, free transport will be provided".*

According to initial assessments of the road networks and travelling routes to the school in this area, free transport would be offered to some pupils living within 2 miles of the school that would need to travel on the road from Fron and Carmel, to Groeslon. This will be based on assessing individual pupil applications.

BUILDING MATTERS

When will the building works commence?

Subject to planning permission, it is foreseen that the work will commence in Spring 2014.

How will the Council ensure the safety of staff and pupils during the build on the site?

Safety measures will be put in place to ensure the safety of all members of staff and all pupils during the building works. Site safety is paramount and specific guidelines will be in place to ensure the safety of all involved, including the workforce. Specific consideration will be given to site access and access to the current school building during the building period.

Will Groeslon School pupils be taught in temporary classrooms during this period?

To ensure everyone's safety, and to ensure that the construction schedule will go ahead, pupil classrooms in Groeslon will be in mobile classrooms. The Council has used similar provision in previous projects. Every effort will be made to ensure that the conditions are appropriate and would not interfere with the education of the pupils.